SAIL DATABANK

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# 2020 - 2025
# Adroddiad blynyddol

# CYNNWYS


03 ... CYFLWYNIAD

06 ... STRWYTHUR SEFYDLIADOL

07 ... EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

09 ... CRYNODEB O'R CYFNOD DYFARNU

11 ... YMATEB I COVID

15 ... CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL ERAILL

26 ... Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BECYNNAU A RHAGLENNI GWAITH

34 ... CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

40 ... CASGLIAD




# CYFLWYNIAD

SAIL DATABANK

Mae'r cyfnod 2020 – 2025 wedi cael ei ddominyddu gan drychineb byd-eang pandemig COVID-19 a arweiniodd at alwadau digynsail am ddata gan y llywodraeth, sefydliadau iechyd a'r cyhoedd i'w galluogi i olrhain a rhagfynegi taflwybr y feirws a chynllunio gwrthfesurau. Roedd Banc Data SAIL, gyda'i adnoddau data cyfoethog a'i strwythurau technoleg a llywodraethu blaengar a sefydledig, mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael â'r angen hwn. Rydym yn falch iawn o'r cyfraniad a wnaethom i'r ymateb cychwynnol i'r argyfwng, ac i raglenni ymchwil parhaus a gynhaliwyd yn ddiweddarach i bob agwedd ar COVID. Nododd Health Data Research (HDR) UK, a fu'n monitro ac yn cydgysylltu'r data a ddarparwyd ar gyfer ymchwil COVID-19 gan Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt (TREs), fod Banc Data SAIL yn arwain y ffordd ar draws pob dimensiwn, gan dynnu sylw at fuddiannau bod â seilwaith aeddfed ar waith o'r cychwyn cyntaf.

Daeth y feirws i'r amlwg ym mis Rhagfyr 2019 ac, erbyn mis Mehefin 2020, roedd Banc Data SAIL yn cefnogi bron i ddwy ran o dair o'r holl brosiectau ymchwil weithredol yn y DU a oedd yn canolbwyntio ar COVID-19, ar ôl sicrhau mynediad at un deg chwech o ffynonellau data newydd, a galluogi mynediad at ddata ar gyfer ceiswyr â blaenoriaeth o'r llywodraeth a'r GIG (Gwasanaeth Iechyd Gwladol) o fewn pum diwrnod gwaith i wneud cais. Roedd SAIL hefyd yn bartner allweddol wrth sefydlu tîm ymateb COVID-19 Cymru'n Un a oedd yn cynnwys cydweithwyr o HDR UK, Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) Cymru, Platfform Data Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol (DHCW) Cymru. Gan ddefnyddio data SAIL, bu modd i dîm Cymru'n Un olrhain datblygiad cyflyrau iechyd ymhlith unigolion, aelwydydd a phoblogaethau ysgol, gan fonitro'r ffordd yr oedd y feirws yn datblygu ac yn lledaenu a gwerthuso effaith amlygiadau ac effeithiau triniaethau ar ganlyniadau. Roedd y mewnwelediad a roddwyd i Grŵp Cynghori Technegol Cymru a Grŵp Cynghori Gwyddonol y DU ar Argyfyngau (SAGE) gan Cymru'n Un yn hollbwysig wrth helpu i lywio penderfyniadau ar bolisïau a chanllawiau ar gyfyngiadau symud yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

Er bod darparu platfform ar gyfer gwaith hollbwysig i ymateb i COVID-19 wedi bod yn rhan fawr o'n llwyth gwaith rhwng 2020 a 2025, mae SAIL wedi parhau i gefnogi amrywiaeth eang o ymchwil, gyda thros 310 o brosiectau yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Mae ymchwil newydd a gefnogir gan SAIL wedi sicrhau mwy na £165 miliwn o gyllid, gyda thros 310 o brosiectau yn cael eu cefnogi yn ystod

y cyfnod o bum mlynedd. Mae ymchwil newydd a gefnogir gan SAIL wedi sicrhau cyfanswm o fwy na £165 miliwn o gyllid, £56 miliwn yn cael ei sicrhau i Gymru a 132 o swyddi newydd yn cael eu creu. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil wedi arwain at lunio 573 o gyhoeddiadau, yn ogystal â sicrhau amrywiaeth o effeithiau a chanlyniadau eraill, gan gynnwys erthyglau yn y cyfryngau ac adroddiadau i gyrff sy'n llunio polisïau fel y GIG ac adrannau'r llywodraeth.

Mae ein partneriaeth hirsefydlog ag ADR Cymru yn parhau i ddarparu adnoddau data i Lywodraeth Cymru sy'n golygu bod penderfyniadau polisi mwy gwybodus yn cael eu gwneud a gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol yn cael eu darparu, o wella addysg a gofal iechyd i fynd i'r afael â throseddu. Defnyddiwyd data SAIL fel rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol o raglen Dechrau'r Deg ac ar gyfer yr adroddiad blaenllaw "Born Into Care" i asesu effaith ymyriadau gwasanaethau cyhoeddus ar iechyd a llesiant plant a'u teuluoedd, ac maent yn enghreifftiau o effaith y bartneriaeth rhwng SAIL ac ADR. Mae ein gwaith arloesol gyda'r Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol yn parhau i ddwyn ynghyd amrywiaeth o ddata ar blant a theuluoedd sy'n destun achosion cyfraith teulu nad oedd ar gael yn flaenorol ar gyfer gwaith dadansoddi cysylltiedig, ac mae'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i fylchau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac yn tynnu sylw at feysydd lle y bydd newid yn cael yr effaith fwyaf. Rydym hefyd yn falch o barhau i gefnogi amrywiaeth eang o waith ymchwil i agweddau gwahanol ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Gan edrych i'r dyfodol, ein huchelgais yw parhau i fod yn arweinydd cydnabyddedig yn y sector ac yn esiampl wrth gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes gwyddor data, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n Panel Defnyddwyr i sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i gefnogi a chraffu ar bob agwedd ar ein gwaith. Mae SAIL wedi bod yn arloeswr ym maes Gwyddor Data erioed, a byddwn yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu modelau arloesol newydd ar gyfer rhannu a chyrchu data, gan gynnal y safonau uchaf o ran diogelwch data ar yr un pryd. Drwy gydol y cyfnod hwn o bum mlynedd, rydym wedi cymryd rhan mewn gwaith i ddatblygu technoleg newydd i fodloni'r galw cynyddol gan y gymuned ymchwil i allu dadansoddi data o ffynonellau niferus, ar draws y DU ac yn rhyngwladol, o un pwynt mynediad. Mae heriau technegol a llywodraethu aruthrol ynghlwm wrth y gofyniad hwn, a elwir yn ffedereiddio data. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i chwarae rôl arweiniol yn y maes datblygu cyffrous hwn dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod. Ac, yn olaf, wrth i rai o aelodau sefydlol SAIL symud tuag at ddiwedd eu gyrfa, rydym yn parhau i hyfforddi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr data, gan gefnogi myfyrwyr ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa drwy ddarparu mynediad at adnoddau hyfforddi a data mewn amgylcheddau diogel y mae'n hawdd cael mynediad atynt.

Yn 2024, cafodd SAIL y fraint o dderbyn Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i gydnabod y cyfraniad rydym wedi'i wneud at ddefnyddio data cyhoeddus i wella iechyd a llesiant.




Hoffem ddiolch yn fawr i'n cyllidwyr, darparwyr data a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus, sydd wedi ategu ein hesblygiad o beilot arbrofol bach i storfa ddata sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Rydym hefyd yn ddyledus iawn i'n Bwrdd Cynghori Rhyngwladol, y mae ei gyngor a'i fewnweledIad wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio ein cyfeiriad strategol. Wrth i'r dirwedd gwyddor data barhau i newid yn y DU, gyda rôl data yn cael ei hystyried yn fwyfwy pwysig ar gyfer llywio strategaethau cenedlaethol, a mwyfwy o Storfeydd Data ac Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt yn cael eu sefydlu fel adnoddau cenedlaethol a ariennir yn ganolog, bydd yn bwysig i SAIL bod ein fframweithiau cyllido a gweithredu yn esblygu yn unol â'r modelau newydd hyn. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu â'n harianwyr a'n rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod SAIL yn parhau i ffynnu yn y dyfodol.



David Ford

Cyd-gyfarwyddwr,
Banc Data SAIL

# CYLLIDWYR

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru — Ymchwil ac Arloesi y DU — Sefydliadau Ymchwil Eraill

# RHEOLWYR

Yr Athro David Ford Cyd-gyfarwyddwr — Yr Athro Ronan Lyons Cyd-gyfarwyddwr — Yr Athro Simon Thompson Cyd-gyfarwyddwr

Yr Athro Kerina Jones Cyd-gyfarwyddwr — Yr Athro Ashley Akbari

Jon Smart Prif Swyddog Gweithredu

# SWYDDOGAETHAU

Gwasanaethau Ymchwil SAIL — Datblygu a Gweinyddu Busnes

Cyfreithiol a Llywodraethu — Marchnata, Cyfathrebu ac Ymgysylltu



## GRWPIAU YMGYSYLLTIEDIG

- Bwrdd Cynghori Gwyddonol Allanol
- SeRP
- Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth
- Panel Defnyddwyr
- Defnyddwyr SAIL (Cyfres Gweminarau Arddangos)
- Grŵp Cyswllt DHCW

# Ein blwyddyn mewn niferoedd

**£189m** O incwm ymchwil wedi'i sicrhau

**131.6** o swyddi wedi'u creu yng Nghymru

**Metrigau Craidd 2020-2025**
Cyfnod adrodd:

## Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **4.6m**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **14**

## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 24 | 310 |
| Gwerth | £24.4m | £164.6m |
| Cyllid i Gymru | £24.2m | £55.5m |
| Cyllid i grŵp | £16m | £3.9m |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 104.1 | 27.5 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 70.6 | 21 |

**573** Nifer y cyhoeddiadau

**16** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**61** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

*Nid oedd pob un o'r swyddi a grëwyd yn bodoli am y cyfnod cyllido

# CRYNODEB O’R CYFNOD DYFARNU 2020-2025



Wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae dyfarniad seilwaith datblygu ymchwil SAIL Databank (SAIL) wedi bod yn hollbwysig wrth gefnogi SAIL rhwng 2020 a 2025. Mae’r cyllid hanfodol hwn wedi helpu SAIL i gyflawni nifer o bethau allweddol yn ystod y cyfnod dyfarnu, gan wella ei gapasiti i ddarparu mynediad diogel at ddata dienw, cyfoethog, sy’n sicrhau bod modd cyflawni ymchwil o ansawdd uchel sy’n llywio polisi ac yn gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Banc Data SAIL wedi derbyn ymholiadau gan 830 o brosiectau ymchwil posibl o amrywiol faint a chymhlethdod, wedi’u harwain gan dros 400 o arweinwyr prosiect gwahanol a chan tua 100 o sefydliadau arweiniol gwahanol. Mae’r prosiectau hyn yn rhychwantu sbectrwm eang – o astudiaethau â ffocws ar ddarparu gwasanaethau lleol i ddadansoddiadau helaeth sy’n llywio strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol. O’r prosiectau a aeth ragddynt, mae 207 ar y cam pennu cwmpas, adolygiad IGRP neu ddarparu data ar hyn o bryd, mae 152 yn weithredol, ac mae 137 wedi’u cwblhau. O ran themâu, roedd 372 o brosiectau yn mynd i’r afael â materion yn ymwneud ag iechyd, roedd 75 yn canolbwyntio ar heriau cymdeithasol fel iechyd meddwl ac integreiddio gwasanaethau, ac roedd 47 yn archwilio pynciau ehangach gan gynnwys deallusrwydd artiffisial a ffermio.

Mae’r enghreifftiau isod yn rhoi cipolwg ar ystod y gwaith y mae SAIL yn ei gefnogi, ond dim ond sampl fach yw hon o’r astudiaethau amrywiol a phellgyrhaeddol y mae modd eu cynnal drwy’r banc data.

# YMATEB I COVID

Cyflawnodd SAIL nifer o brosiectau cydweithredol allweddol a oedd yn cefnogi'r ymateb cenedlaethol brys i COVID-19.

## CYMRU'N UN

### 2020 - 2021

Drwy ddwyn ynghyd gydweithwyr o'r grŵp Gwyddor Data Poblogaeth a ledled Cymru gan gynnwys HDR UK, ADR Cymru, Banc Data SAIL, ADP, BREATHE, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sicrhawyd ymateb hyblyg ac ymatebol i ddadansoddi data a chynhyrchu gwybodaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau cyson a'r blaenoriaethau a oedd yn datblygu ar gyfer mynd i'r afael â COVID-19 yng Nghymru. Mae Cymru'n Un wedi llywio Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru ac, yn dilyn hynny, Grŵp Cynghori Gwyddonol y DU ar Argyfyngau (SAGE).

Mae dadansoddiad amser real newydd sy'n dangos lledaeniad COVID-19 yng Nghymru wedi llywio ymateb Cymru'n Un i COVID-19 yng Nghymru yn uniongyrchol er mwyn helpu i ddeall lledaeniad COVID-19 yn lleol. Aeth y prosiect hwn ati i addasu dulliau modelu geo-ofodol er mwyn amcangyfrif yr achosion o'r haint ar lefel gymunedol, bron ar amser real, gan ddefnyddio data profi COVID-19. Mae'r mapiau a gynhyrchwyd yn darparu'r asesiad cenedlaethol manwl cyntaf o ddosbarthiad daearyddol heintiau COVID-19 a gadarnhawyd mewn labordy.

Defnyddiodd y prosiect ddata patholeg, sy'n cadarnhau canlyniad COVID-19 positif yn seiliedig ar brawf a'r dyddiad y cymerwyd y prawf. Caiff y data ei gadw yn ddienw ac yn ddiogel a'i dynnu o Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Yna, cafodd y data a dynnwyd o Fanc Data SAIL ei brosesu i gynhyrchu mewnbynnau addas ar gyfer modelu geo-ofodol. Mae'r allbynnau a fodelir yn cynnwys cyfyngau hyder ystadegol a dangosyddion tebygolrwydd ar gyfer amcangyfrif cyffredinrwydd yr achosion.

Mae'r gwaith modelu yn dangos gwerth platfform mapio casgliadol gofodol-amserol amser real i ymdrechion ym maes iechyd y cyhoedd pan fydd clefydau heintus yn ymddangos am y tro cyntaf ac yn lledaenu. Mae'r prosiect wedi prototeipio ac wedi darparu seilweithiau data a phiblinellau dadansoddi a all ddarparu dadansoddeg mewnweledol ac amserol i bob lefel o lywodraeth.
Mae'r prosiect ymchwil yn esiampl o'r angen i sicrhau cyfuniad o sgiliau (Gwybodeg Iechyd, Ystadegau a Daearyddiaeth) i ddarparu mewnwelediadau i lywio polisïau llywodraeth leol a chanolog drwy gydol argyfwng COVID-19.

## Y RHAGLEN CYSYLLTEDD ASTUDIAETHAU CRAIDD GENEDLAETHOL

### 2020 - 2021

Roedd y Rhaglen Cysylltedd a Data Astudiaethau Craidd Genedlaethol yn rhan ganolog o ymateb y DU i bandemig COVID-19. Nod y rhaglen oedd cysylltu SAIL ac amgylcheddau ymchwil eraill y gellir ymddiried ynddynt (TREs) ledled y DU er mwyn cyflymu cwestiynau ymchwil allweddol drwy sicrhau bod modd cyrchu a dadansoddi data yn haws. Drwy'r rhaglen hon, mae asedau data gwerth uchel wedi cael eu darparu ar gyfer ymchwil mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy, gan gynnwys y System Rheoli Imiwneiddio Genedlaethol (setiau data ar frechlynnau) ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn eu cyfanrwydd; Ased Data Cyhoeddus ar y Cyd SYG (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) NHS Digital; ac amgylchedd ymchwil yr ymddiriedir ynddo Canolfan Gwyddor Data BHF (British Heart Foundation) HDR UK sydd wedi cysylltu data ar 54 miliwn o bobl yn Lloegr. Mae'r rhaglen wedi derbyn cydnabyddiaeth gan gynghorwyr gwyddonol cenedlaethol arweiniol.

Ar 31 Mawrth 2021, derbyniodd SAIL lythyr cydnabyddiaeth gan HDR UK, a oedd yn cydnabod y cyfraniad eithriadol yr oedd SAIL wedi'i wneud i'r Rhaglen.

'Mae SAIL yn bartner cyflawni pwysig a gwerthfawr yn y gwaith hwn. Rydym yn ddiolchgar am ymrwymiad eich tîm a'r modd y maent wedi ymateb dros y 6 mis diwethaf wrth reoli rhaglen waith gymhleth a dynamig iawn. Ymhlith y cyflawniadau allweddol dros y 6 mis diwethaf roedd y cynnydd sylweddol yn y setiau data a gyflwynwyd i SAIL yn gyflym ac ar raddfa fawr, gan gynnwys asedau newydd fel setiau data ar frechlynnau, a'r ysgogiad cynyddol i adeiladu seilwaith yr oedd ei angen i gefnogi agweddau ar y rhaglen fel galluoedd ffedereiddio. Mae'r cynnydd dilynol yn nifer yr ymchwilwyr sy'n cyrchu'r setiau data hyn wedi bod yn werthfawr iawn a bydd yn parhau i ddarparu cymorth go iawn i waith ymchwil brys ar COVID. Er gwaethaf yr amwysedd a'r ansicrwydd sylweddol dros y cyfnod hwn, rydych wedi gweithio mewn ffordd hwylus, gyda ffocws cryf ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yn ystod y pandemig'.

## HWB DATA BREATHE

### 2020 - 2021

Roedd BREATHE, hwb Ymchwil Data Iechyd y DU ar gyfer iechyd anadlol, yn un o bartneriaid allweddol Banc Data SAIL. Yn ystod 2020-21, darparodd BREATHE a SAIL nifer o brosiectau cydweithredol allweddol i gefnogi'r ymateb cenedlaethol brys i COVID-19.

Ym mis Ebrill 2020, datblygodd cydweithrediad rhwng SAIL, BREATHE, Coleg y Brenin Llundain a'r cwmni technoleg ZOE biblinell data dienw, diogel i ddarparu gwybodaeth o ap olrhain symptomau COVID-19 ZOE i'r GIG, gan gefnogi'r ymateb i'r pandemig

Cyn i raglenni profi COVID-19 a Thracio ac Olrhain effeithiol gael eu cyflwyno, roedd y data o'r ap hwn yn cynnig un o'r unig ffyrdd o ragfynegi cyffredinrwydd y feirws mewn cymuned. Roedd y galw am y data yn enfawr ac, yn y pen draw, cafodd y data ei ddefnyddio gan 55 o brosiectau ymchwil unigol i gefnogi gweithgarwch cynllunio argyfwng cenedlaethol.

## PARTNERIAETH DATA CYFIAWNDER TEULUOL – GWELLA GWYBODAETH AR GYFER Y SYSTEM CYFIAWNDER TEULUOL

### 2020 - 2021

Neges allweddol gan randdeiliaid yn y system cyfiawnder teuluol yw nad oes digon o wybodaeth ar gael am sut mae'r system cyfiawnder teuluol yn gweithio, gan gynnwys gwybodaeth am ganlyniadau i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â'r llysoedd teulu. Mae gwybodaeth gyfyngedig yn adlewyrchu'r ffaith bod capasiti cyfyngedig ymhlith y gymuned ymchwil a dadansoddeg cyfiawnder teuluol ond mae hefyd yn dangos ei bod yn anodd cyrchu data sensitif a gynhyrchir gan asiantaethau fel mater o drefn. Fel rhan o'r gwaith i bennu cwmpas yr Arsyllfa newydd, nodwyd bod y rhwystrau ymarferol canlynol yn atal gwybodaeth well a mwy ymatebol ar lefel genedlaethol (Cymru a Lloegr):

- Capasiti a gallu cyfyngedig yn y gymuned ymchwil a dadansoddeg o ran defnyddio setiau data gweinyddol mawr ac ychydig iawn o dimau yn meddu ar wybodaeth a sgiliau rhyngddisgyblaethol ym maes cyfraith teulu, gwaith cymdeithasol, ystadegau a chyfrifiadura

- Capasiti cyfyngedig ymhlith perchnogion data i ddarparu mynediad diogel at ddata mewn fformatau sy'n hawdd i'r gymuned ymchwil eu dadansoddi, ac i roi'r canllawiau technegol sydd eu hangen i gefnogi gwaith dadansoddi

- Heriau penodol i gysylltu data sy'n cynnwys materion technegol sy'n deillio o'r ffaithbod gwybodaeth wahanol am achosion, plant neu deuluoedd yn cael ei chasglu gan gynhyrchwyr data gwahanol, yn ogystal â materion moesegol a'r amser y mae'n ei gymryd i negodi cyswllt ar draws perchnogion data gwahanol o gofio cyfyngiadau cyfreithiol

gwahanol, gwybodaeth sy'n nodi plentyn neu deulu a gesglir gan gynhyrchwyr data gwahanol, a materion moesegol a'r amser mae'n ei gymryd i negodi cysylltiad ar draws perchnogion data gwahanol o ystyried cyfyngiadau cyfreithiol

Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, cynlluniwyd rhaglen waith sy'n manteisio ar arbenigedd cyfunol y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd ym Mhrifysgol Caerhirfryn a seilwaith ac arbenigedd Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Y cyd-gyfarwyddwyr yw'r Athro Karen Broadhurst ym Mhrifysgol Caerhirfryn a David Ford ym Manc Data SAIL.

Yn ogystal, mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â Cafcass England a Cafcass Cymru, o ystyried gwerth y data cyfiawnder teuluol a gynhyrchir gan yr asiantaethau hyn a'u gwybodaeth reng flaen. Nod cyffredinol y prosiect yw sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y caiff setiau data gweinyddol cyfiawnder teuluol eu dadansoddi a'u defnyddio, gan sicrhau bod Arsyllfa newydd Nuffield yn cael ei chyflenwi ag allbynnau amserol, hygyrch ar gyfer ei hamrywiaeth o gynulleidfaoedd.

## DEFNYDDIO DATA SAIL I DYNNU SYLW AT AMRYWIADAU YMHLITH Y RHAI O GRWPIAU ETHNIG LEIAFRIFOL SY'N MANTEISIO AR FRECHLYN COVID

### 2020 - 2021

Ym mis Mawrth 2021, datgelodd ymchwiliadau a arweiniwyd gan dîm Ymateb COVID-19 Cymru'n Un gan ddefnyddio data SAIL fod 11.3% yn llai o oedolion 80+ oed, 12.8% yn llai o oedolion 75 – 79 oed a 10% yn llai o oedolion 70 – 74 oed o grwpiau du, Asiaidd, cymysg ac ethnig eraill yn manteisio ar frechlynnau. Roedd y canfyddiad hwn yn arbennig o bwysig o ystyried ein bod ni'n gwybod eisoes bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar grwpiau ethnig leiafrifol, gyda mwy o achosion o'r haint ac adwaith llawer gwaeth i'r feirws ymhlith y rhai a oedd yn profi'n bositif.

Dywedodd Malorie Perry, Uwch Epidemiolegydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y pryd:


> "Mae'r ffaith bod y wybodaeth hon ar gael wedi galluogi cydweithwyr yn y GIG i werthuso'r rhaglen imiwneiddio yng Nghymru a'i theilwra, gan wneud yn siŵr bod y rhaglen frechu ar gael i bawb. Wrth i'r rhaglen frechu barhau, felly hefyd mae'r gwaith monitro rydym yn ei wneud gan ddefnyddio'r dull dadansoddi data dienw hwn. Rydym yn parhau i edrych ar degwch o ran y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn a'r gobaith yw y bydd hyn yn gallu cael ei ymestyn i gynorthwyo dealltwriaeth ynghylch grwpiau eraill y mae pandemig COVID-19 yn cael effaith anghymesur arnynt".

# GWOBRAU A ENILLWYD

## 2020 - 2021

Mae Banc Data SAIL a thîm 'Cymru'n Un' wedi ennill gwobrau sy'n cydnabod yr ymateb i COVID-19 drwy 'hyblygrwydd a'r gallu i addasu mewn tirwedd newidiol'.

- Effaith Eithriadol ar Iechyd a Llesiant (Gwobrau Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe 2022)
- Cydnabyddiaeth am Ymateb Eithriadol i COVID-19 (Gwobrau Cynhadledd Partneriaeth ADR UK 2022)





# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL ERAILL

## BANC DATA SAIL YN HELPU I ARWAIN PROSIECTAU DARE-UK I SICRHAU BOD FFEDEREIDDIO YN LLAWER SYMLACH

## 2022 - 2023

Mae DARE-Teleport yn archwilio sut y gellir gwneud ffedereiddio data yn symlach, ond yr un mor ddiogel, drwy awtomeiddio'r broses ffedereiddio. Mae gan y DU gyfoeth o ddata mewn cofnodion iechyd electronig a ddefnyddir gan ymchwilwyr mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys astudio pandemig COVID, deall clefydau, a gwella'r gwasanaethau niferus a ddarperir gan y GIG. Gan fod data yn cael ei gynhyrchu a'i gadw mewn llawer o leoedd, mae amgylcheddau ymchwil yr ymddiriedir ynddynt (TREs) wedi cael eu datblygu i storio data sy'n dod o'r GIG a sefydliadau cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, yn aml, mae ymchwilwyr eisiau astudio data o bob rhan o'r DU. Un ffordd o ddod â'r data hwn at ei gilydd yw ffedereiddio data – proses y mae cymeradwyaethau penodol iawn ynghlwm wrthi.

Bydd model newydd o TREs dros dro yn cael ei ddangos drwy ffedereiddio data iechyd dienw ar lefel yr unigolyn o Gymru a'r Alban. Rhan allweddol o'r gwaith hwn fydd archwilio sut y gellir dod â phrosesau cymeradwyo tebyg ond gwahanol at ei gilydd fel bod y rheolyddion data – y bobl sy'n gyfrifol am y data yn y pen draw – yn gallu bod yn hyderus ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel gan ymchwilwyr ac yn unol â'r achosion defnydd a gymeradwywyd ganddynt, ond trwy ddefnyddio proses newydd diogel i gyrchu data sy'n galluogi ymchwilwyr i ddadansoddi a gweithio gyda data a gedwir mewn lleoliadau gwahanol.

Nod y prosiect arall, DARE-TREFX, yw dangos trwy weithrediad cyfeirio go iawn sut mae modd defnyddio Gwrthrychau Ymchwil diogel i symud rhwng TREs a chefnogi'r pum egwyddor diogel sy'n llywodraethu ac yn diogelu data ar gleifion, gyda'r cyfan yn cael ei oruchwylio gan gynrychiolwyr cleifion. Yn aml, mae angen i ymchwilwyr gynnal dadansoddiad dros sawl TREs lle mae ffiniau daearyddol neu lywodraethu yn bodoli, fel natur ddatganoledig gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig. Byddai dadansoddi ar draws ffederasiwn o TREs yn golygu y byddai modd dadansoddi data sydd wedi'i ledaenu'n eang ledled y DU mewn modd amserol er mwyn ateb cwestiynau brys, fel yr oedd angen i ni ei wneud yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r dechnoleg a'r safonau sydd eu hangen i wneud hyn ar gael nawr ac mae DARE-TREFX yn cynnull darparwyr technoleg blaenllaw o ELIXIR-UK a HDR-UK, gyda thri darparwr TRE a dau blatfform dadansoddi blaenllaw i alluogi hyn i ddigwydd.
Effaith hyn fydd newid sylweddol yn y ffordd y gall ymchwilwyr gyfuno data o amryw ffynonellau yn ddiogel, ac yn y ffordd y gall darparwyr data o unrhyw sector roi hyn ar waith yn ddiogel gan ddefnyddio technoleg a safonau sydd gennym eisoes.

## YMCHWIL YN DATGELU MAI DIM OND 1 MEWN 3 O FERCHED GAFODD Y BRECHLYN COVID-19 YN YSTOD BEICHIOGRWYDD ER I DDWYWAITH CYMAINT NODI Y BYDDENT YN EI GAEL

### 2022 -2023

Datgelodd astudiaeth i betruster ymhlith menywod beichiog ynghylch cael y brechlyn mai 32.7% o'r menywod a gymerodd ran aeth ymlaen i gael y brechlyn COVID-19 tra roeddent yn feichiog, er i 69% o'r cyfranogwyr nodi'n flaenorol y byddent yn ei gael. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth fod 33.2% o gyfranogwyr wedi cael y brechlyn ar ôl iddynt roi genedigaeth, a olygodd fod 65.7% o gyfranogwyr wedi cael y brechlyn ar ryw adeg – roedd hyn yn dal yn is na'r hyn a nodwyd i ddechrau. Ymhlith nodweddion allweddol y rhai na wnaethant gael unrhyw frechlyn roedd y canlynol:

- Oedran – Roedd menywod iau (<30 mlwydd oed) yn llai tebygol o gael y brechlyn
- Ethnigrwydd – Y rhai a nododd eu bod yn Asiaidd oedd yn lleiaf tebygol o gael eu brechu
- Cefndir economaidd-gymdeithasol – Roedd y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd yr ystyriwyd eu bod yn ddifreintiedig iawn yn llai tebygol o gael y brechlyn

Ymhlith y rhesymau dros beidio â chael y brechlyn roedd pryder ynghylch yr effeithiau hirdymor ar y babi, pryder cyffredinol am frechlynnau, cyngor a gwybodaeth anghyson, a dewis aros tan ar ôl y beichiogrwydd.



## ASTUDIAETH 20 MLYNEDD YN DATGELU BAICH COSTAU LLID YR ISGROEN I'R GIG YNG NGHYMRU

### 2022 - 2023

Mae astudiaeth boblogaeth 20 mlynedd o gleifion â llid yr isgroen wedi datgelu'r baich costau economaidd llawn i'r GIG yng Nghymru. Gall y cyflwr, sy'n cael ei achosi gan haint bacterol, wneud y croen unrhyw le ar y corff yn boenus, yn boeth neu'n chwyddedig, ac weithiau ceir pothelli hefyd. Mae llid yr isgroen yn gost sylweddol i'r GIG, yn ariannol ac o ran adnoddau, ac mae'n cyfrif am gyfran fawr o'r gwelyau a ddefnyddir mewn ysbytai hefyd. Mae'r ymchwil hon yn tynnu sylw at y buddiannau posibl i'r GIG, drwy wella diagnosis a llwybrau triniaeth ar gyfer llid yr isgroen.

Defnyddiodd yr astudiaeth ddata SAIL, a oedd yn cwmpasu bron i 80% o ddata gofal sylfaenol y boblogaeth yng Nghymru, a 100% o ddata gofal eilaidd. Mae allosodiadau a wnaed o hyn yn debygol o gynrychioli amcangyfrif realistig o'r broblem. Dangosodd dadansoddiad o'r data fod y costau uniongyrchol blynyddol amcangyfrifiedig i GIG Cymru yn sylweddol (>£28 miliwn). Wedi'i allosod ar gyfer y DU, mae hyn yn dod i >£571 miliwn. Costau sy'n ymwneud â digwyddiadau cleifion mewnol a hyd arosiadau yw'r prif gostau, gydag amcangyfrifon blynyddol o £19,664,126 ar gyfer GIG Cymru, gyda digwyddiadau gofal sylfaenol yn costio £8,890,212.

Byddai mentrau i nodi arwyddion/risgiau cynnar o lid yr isgroen, gwella cywirdeb diagnosis cychwynnol, a gwella llwybrau triniaeth yn seiliedig ar dystiolaeth i leihau nifer yr achosion a'u difrifoldeb ychydig ganrannau yn unig yn arwain at arbedion ariannol mawr ac yn lleihau'r baich ar gleifion.

Wrth sôn am y rôl hollbwysig y chwaraeodd SAIL yn yr astudiaeth, dywedodd yr ymchwilydd arweiniol, Ioan Humphreys:

> **Roedd defnyddio Banc Data SAIL ar gyfer yr astudiaeth hon yn hollbwysig i fesur baich economaidd llid yr isgroen yn gywir. Roedd defnyddio'r codio i gysylltu'r cleifion o ofal sylfaenol drwodd i ofal eilaidd yn amhrisiadwy i ni fel ymchwilwyr gwasanaethau iechyd. Mae'r darn hwn o waith hefyd wedi arwain at ddadansoddiadau pellach Banc Data SAIL sy'n gysylltiedig â Lymffoedema y maent wrthi'n cael eu llunio gan yr un grŵp o ymchwilwyr.**

## BANC DATA SAIL YN ENNILL GWOBR PEN-BLWYDD Y FRENHINES

### 2023 - 2024

Ym mis Chwefror 2024, dyfarnwyd Gwobr fawreddog Pen-blwydd y Frenhines i Fanc Data SAIL i gydnabod ei ddefnydd arloesol o ddata cyhoeddus dienw i wella iechyd a llesiant y boblogaeth. Cafodd y wobr ei chyflwyno i Gyd-gyfarwyddwr Banc Data SAIL, yr Athro Ronan Lyons OBE, ym Mhalas Buckingham gan y Frenhines Camilla a Duges Caerloyw.

Mae Gwobrau Pen-blwydd y Frenhines yn dathlu cyfraniadau eithriadol y mae sefydliadau yn y DU wedi'u gwneud i fudd y cyhoedd drwy addysg ac ymchwil. Mae'r gydnabyddiaeth genedlaethol hon yn tynnu sylw at rôl SAIL fel model rhagoriaeth ym maes seilwaith ymchwil, llywodraethu data, a chydweithredu.

Gan fyfyrio ar y gydnabyddiaeth, dywedodd yr Athro Ronan Lyons:

> **Mae derbyn Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ym Mhalas Buckingham yn anrhydedd anhygoel ac mae'n dangos y gwaith eithriadol y mae holl dîm SAIL yn ei wneud. Mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod bythgofiadwy i ni i gyd. Mae SAIL yn cynrychioli hanfod gwyddoniaeth tîm, gan feithrin cydweithrediad rhwng academyddion, y GIG, endidau'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach i fynd i'r afael â materion hollbwysig sy'n effeithio ar y boblogaeth yng Nghymru ac yn fyd-eang.**



## YMCHWIL DATA GWEINYDDOL (YDG)

### 2023 - 2024

Mae YDG Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd, a gweithwyr proffesiynol o Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio i oresgyn rhwystrau ym maes gwyddor data a llunio ymchwil fewnweledol o ansawdd uchel mewn modd diogel a moesegol.

Mae ADR UK yn un o arianwyr SAIL ac yn rhaglen ymchwil annibynnol sydd wedi'i chysylltu â meysydd polisi Llywodraeth Cymru. Mae buddiannau'r ymchwil academaidd/polisi wedi arwain at lawer o fewnwelediadau effeithiol ar gyfer polisi a nawr mae allbynnau ymchwil sy'n deillio o SAIL yn cael eu hadolygu ar lefel weinidogol. Mae'r gwaith hwn wedi cael cydnabyddiaethau eang a thystebau gan uwch weision sifil a Gweinidogion hefyd.

Mae SAIL, drwy ADR UK, wedi cael effaith hefyd ar lefel y DU drwy ei waith gyda gweinyddiaethau Whitehall, megis CThEM a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Enghraifft o hyn yw rhaglen BOLD lle bu SAIL yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu amryw o allbynnau ymchwil data cysylltiedig ar gyfer timau polisi.

Mae'r gydberthynas ag ADR UK yn allweddol i SAIL gan ei bod yn gatalydd ar gyfer meithrin cydberthnasau newydd â pherchnogion data. Yn 2022 hyd yma, mae ADR UK wedi hwyluso'r gwaith o rannu data Cyfrifiad 2021 SYG, data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, data CThEF (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi) ac amrywiaeth eang o ddata a gedwir gan SYG ar lefel y DU. Y buddiannau net i ymchwilwyr sy'n cyrchu SAIL yw data ehangach a chyfoethocach sy'n cael mwy o effaith ar ymchwil.

Fel enghraifft, darparwyd datganiad ysgrifenedig yn Hydref 2024 gan Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.

Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) y DU 2023-2024 (9 Medi 2024) | LLYW.CYMRU.

O fewn y cydweithrediad hwn, mae Banc Data SAIL yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddarparu ymchwil gadarn ac effeithiol. Ymhlith rhai o ganlyniadau allweddol y cydweithredu yn 2023-24 mae:

**Gwella'r modd y caiff data ei drosglwyddo ac ansawdd data trwy biblinell dadansoddol y gellir ei hatgynhyrchu**

Eleni, gwelwyd cyflawniadau sylweddol gan YDG Cymru, a arweiniodd y gwaith o ddatblygu piblinell dadansoddol y gellir ei hatgynhyrchu ar gyfer trosglwyddo data o Lywodraeth Cymru i Fanc Data SAIL. Mae'r gwaith arloesol hwn wedi symleiddio prosesau paratoi a throsglwyddo data, gan arwain at argaeledd data gweinyddol o ansawdd uwch at ddibenion ymchwil. Mae'r biblinell well yn hybu effeithlonrwydd trosglwyddiadau data ac yn sicrhau bod ymchwilwyr yn gallu cyrchu setiau data mwy cywir a chynhwysfawr ar gyfer eu dadansoddiadau.

**Cysylltu Data Camdriniaeth Domestig yr Heddlu â Data Iechyd: Astudiaeth Achos**

Astudiaeth nodedig a gynhyrchwyd ar y cyd ag YDG Cymru yw cysylltu data'r a heddlu ar gamdriniaeth domestig â chofnodion data yn Ne Cymru. Mae'r ymchwil hon, a gynhaliwyd gan dîm Blynyddoedd Cynnar YDG Cymru ac a gyhoeddwyd yn The Lancet, yn archwilio effeithiau hirdymor camdriniaeth domestig ar iechyd corfforol a meddyliol dioddefwyr.

Defnyddiodd y tîm ddata wedi'i ddad-adnabod a gadwyd ym Manc Data SAIL, gan ganolbwyntio ar breswylwyr yn Ne Cymru a oedd wedi profi camdriniaeth domestig ac y cyhoeddwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â nhw rhwng 2015 a 2020. Drwy gysylltu'r wybodaeth hon â data iechyd, nododd ymchwilwyr batrymau a ffactorau risg pwysig, fel unigolion iau, beichiogrwydd, neu anafiadau a gafwyd yn ystod camdriniaeth, a arweiniodd at fwy o ganlyniadau iechyd negyddol, gan gynnwys derbyniadau i'r adran damweiniau ac achosion brys a hyd yn oed marwolaeth.

Mae'r astudiaeth hon yn dangos gwerth cysylltu data ar draws asiantaethau a sut y gall nodi patrymau niweidiol yn gynnar arwain at ymyriadau mwy effeithiol, gan amddiffyn o bosibl y rhai sy'n dioddef camdriniaeth domestig.

## CYMDEITHAS DIWYDIANT FFERYLLOL PRYDAIN (ABPI)

### 2023 - 2024

Yn 2024, cysylltodd cydweithwyr o Lywodraeth Cymru â SAIL i hwyluso cydberthynas agosach â Chymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI). Er bod SAIL wedi ymgymryd â gwaith gydag aelodau ABPI cyn y pandemig, nodwyd bod angen amgylchedd data a oedd yn esblygu'n gyflym i ailsefydlu cydberthnasau.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyfarfu SAIL â chydweithwyr ABPI, cyflwynodd ar lefel uwch ac, erbyn hyn, mae'n cytuno ar gyfres o wasanaethau y gall aelodau ABPI eu cyrchu. Mae'r deunyddiau yn canolbwyntio ar fusnes ac maent yn rhoi eglurder ynghylch sut y gall SAIL fod o fudd i'r aelodau. Bwriedir i'r gydberthynas ag ABPI fod yn un hirsefydlog, gan gydweithio ar gyfleoedd ar y cyd yn y dyfodol ar gyfer cyfnod grant 2025-2030.

## BANC DATA SAIL A RESEARCH DATA SCOTLAND (RDS) YN FFURFIO PARTNERIAETH GYDWEITHREDOL

### 2023 - 2024

Ers pandemig COVID, mae mwy o alw gan y gymuned ymchwil am fynediad at ddata poblogaeth mwy o faint, ac i'r mynediad at ddata a gedwir mewn TREs gwahanol ledled y DU fod yn fwy cydgysylltiedig a di-dor. Mae SAIL ac RDS yn gweithio gyda data sy'n ymwneud yn bennaf â phoblogaethau craidd cymharol fach (Cymru a'r Alban yn y drefn honno). Er mwyn parhau i fodloni'r galw gan y gymuned ymchwil, mae'n bwysig eu bod yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda TREs eraill ledled y DU, i ddarparu gwasanaeth mwyfwy cydgysylltiedig, o ran gwneud cais am fynediad at ddata, ac o ran darparu data.

Yn 2022, gofynnodd ADR UK i SAIL gyfnewid gwybodaeth ag RDS, SYG a'r UKDS (Gwasanaeth Data'r DU) a rhoi cymorth iddynt o amgylch gweithrediadau TRE. Dros y 3 blynedd diwethaf, mae SAIL wedi cyfarfod â'r amgylcheddau TRE partner hyn i gyfnewid syniadau, gwybodaeth a dulliau gweithredu sydd o fudd i bawb. Mae yna Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda RDS nawr sy'n caniatáu i ddatblygiadau arloesol newydd gael eu cyfnewid rhwng y ddau.

**Mae manylion llawn ar gael yn: RDS formalises collaboration with partner organisations.**

Nod cyffredinol y bartneriaeth hon yw cydweithio lle y bo’n briodol i helpu’r ddau sefydliad i gyflawni eu nodau a’u hamcanion. Yr amcanion penodol yw:

- Rhannu gwybodaeth ac arferion da (e.e. o ran strwythurau sefydliadol, fframweithiau llywodraethu, arferion gweithredu ac ati)
- Dangos y gwaith gwych sy’n cael ei wneud ym maes ymchwil data gan ddefnyddio data sector cyhoeddus yn y gwledydd datganoledig, ac eirioli dros y gwaith hwnnw, a dangos yr hyn sydd ei angen i’w gyllido a’i ddatblygu ymhellach
- Edrych ar opsiynau ar gyfer cydweithio’n agosach (e.e. hwyluso mynediad wedi’i ffedereiddio at ddata ar draws y ddau sefydliad, datblygu modelau busnes ar y cyd neu fodelau busnes sy’n cefnogi’r naill a’r llall ac ati)
- Edrych ar opsiynau i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau datblygu cydweithredol

Mae gan SAIL ac RDS gydberthynas waith agos eisoes ac maent wedi cydweithio ar nifer o brosiectau ffedereiddio data sydd wedi ffurfio sail naturiol ar gyfer y bartneriaeth hon. Dechreuodd y bartneriaeth ar 1 Ionawr 2024 a disgwylir iddi bara am o leiaf 3 blynedd.





## DISGWYL I GYSWLLT Â CHARFANAU BRITISH HEART FOUNDATION (BHF) GRYFHAU YMCHWIL I DDIABETES A CHLEFYD Y GALON

### 2024 - 2025

Mae tîm o Brifysgol Abertawe wedi cael cyllid gan Ganolfan Gwyddor Data BHF i lansio menter gwyddor data gyffrous i wella astudiaethau carfanau yn y DU er budd y cyhoedd.

Bydd ymchwilwyr Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn defnyddio’r cyllid i ddatblygu platfform diogel a dibynadwy ar y cyd o fewn Banc Data SAIL gyda ffocws ar gefnogi carfanau ymchwil cardiofasgwlaidd a diabetes. Nod y platfform newydd yw darparu mecanwaith ar gyfer carfanau sy’n seiliedig ar glefydau er mwyn cysylltu eu data ymchwil â gwybodaeth arferol am ofal iechyd i gyfoethogi’r wybodaeth a gesglir.

Astudiaethau sy’n dilyn pobl dros gyfnod hir yw carfanau ymchwil. Caiff gwybodaeth fanwl am gyfranogwyr ei chasglu ar draws ystod eang o fesurau, a allai gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, oedran, canlyniadau profion gwaed, sganio, a geneteg. Yn wahanol i garfanau poblogaeth, fel y’u gelwir, mae carfanau seiliedig ar glefydau yn recriwtio pobl sydd â chlefyd neu gyflwr penodol neu sy’n wynebu risg uchel o’i ddatblygu.

Mae carfanau clefydau a gysylltir â data iechyd arferol a gesglir gan y GIG, er enghraifft, cofnod ysbyty’r cyfranogwr, yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr oherwydd bod modd dilyn y bobl sydd wedi cymryd rhan mewn astudiaeth yn yr hirdymor, sy’n golygu bod modd astudio’r ffordd y mae’r clefyd wedi’i drin a’i reoli a chanlyniadau’r clefyd ar ôl iddynt orffen cymryd rhan. Mae cysylltu’r data hwn hefyd yn caniatáu i ymchwilwyr gyfeirio at gofnodion o’r cyfnod cyn i’r clefyd ddechrau. Mae hyn yn golygu bod ymchwilwyr mewn sefyllfa unigryw i nodi digwyddiadau cynnar neu newidiadau ym mioleg unigolyn a allai fod wedi cyfrannu at ddatblygiad y clefyd. Mae hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o’r hyn sy’n achosi clefyd ac ymchwil i’r ffordd orau o’i atal.

Bydd y tîm datblygu platfform yn caniatáu ar gyfer gwahanol ddulliau o ddadansoddi data, ond bydd hefyd yn galluogi technegau uwch, er enghraifft, dysgu peirianyddol. Caiff y carfanau newydd a grëwyd a’r data cysylltiol sy’n gysylltiedig â nhw eu dad-adnabod a’u cadw yn amgylchedd Banc Data SAIL, sy’n diogelu preifatrwydd, a dim ond ymchwilwyr cymeradwy fydd yn gallu cael mynediad atynt, a hynny drwy broses IGRP SAIL.

# ADRODDIAD NEWYDD YN TAFLU GOLEUNI AR LWYBRAU GOFAL AR GYFER POBL IFANC YNG NGHYMRU

## 2024 - 2025

Mae adroddiad newydd yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr i brofiadau gofal pobl ifanc yng Nghymru. Mae pryderon o hyd ynghylch y nifer mawr o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sydd ag un o'r cyfraddau uchaf o blant sy'n derbyn gofal gan y wladwriaeth yn y DU.

Defnyddiodd yr astudiaeth hon gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol ddata dienw a gedwir ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Defnyddiwyd y data o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, i archwilio llwybrau mynediad at ofal, sefydlogrwydd lleoliadau a chanlyniadau ar gyfer plant 10-17 oed a aeth i mewn i ofal am y tro cyntaf rhwng 2007 a 2021.

**Canfyddiadau Allweddol:**

- Er nad yw cyfanswm y bobl ifanc sy'n mynd i ofal wedi newid yn sylweddol dros ddegawd, mae'r gyfradd wedi gostwng ymhlith pobl ifanc iau
- Pobl ifanc 14-15 oed oedd yn fwyaf tebygol o fynd i ofal. Y grŵp oedran hwn sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf sy'n mynd i ofal bob blwyddyn
- Mae ethnigrwydd pobl ifanc sy'n mynd i ofal yn adlewyrchiad agos o'r boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc yng Nghymru, gydag 84% ohonynt yn Wyn
- Roedd cyfraddau achosion yn amrywio rhwng y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda chyfraddau uwch yn Sir Benfro, Wrecsam a Chaerdydd
- Aeth dros ddwy ran o dair (68%) i ofal drwy gytundebau gwirfoddol lle mae'r rheini a chyfrifoldeb rhiant yn amddiffyn y plentyn tra bod asesiad pellach yn cael ei gynnal
- Tynnodd yr adroddiad sylw at newid posibl mewn llwybrau mynediad, gyda llai o drefniadau gwirfoddol a mwy o orchmynion gofal interim ar ôl 2011/12. Fodd bynnag, ymddengys fod y duedd hon wedi sefydlogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf
- Roedd pobl ifanc hŷn yn fwy tebygol o fynd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol, tra roedd pobl ifanc iau yn fwy tebygol o wneud hynny drwy orchmynion gofal interim
- O'r rheini a aeth i ofal drwy drefniadau gwirfoddol, lleolwyd 68% gyda gofalwyr maeth nad oedd yn perthyn iddynt. Roedd y rhai a oedd yn mynd i ofal drwy orchymyn gofal interim yn fwyaf tebygol o gael eu lleoli gyda rhieni (34%)
- Roedd cyfraddau uwch o drefniadau gwirfoddol ymhlith pobl ifanc hŷn, tra roedd pobl ifanc iau yn fwy tebygol o fynd i ofal o dan orchmynion gofal interim. Roedd gan Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru gyfraddau uwch o bobl ifanc yn mynd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol a gorchmynion gofal interim
- Dychwelodd bron i hanner (43%) y rhai a adawodd gofal yn ystod cyfnod yr astudiaeth adref i fyw gyda theulu
- Roedd 23% o bobl ifanc wedi mynd yn ôl i ofal o leiaf unwaith yn ystod cyfnod yr astudiaeth
- Profodd bron i hanner y bobl ifanc iau dri lleoliad neu fwy tra roedd pobl ifanc hŷn yn fwy tebygol o brofi un lleoliad yn unig

Mae gofal seibiant yn chwarae rôl hollbwysig ond mae'n aml yn cael ei ddiystyru, gyda chyfran sylweddol yn symud i drefniadau gwirfoddol neu orchmynion gofal.

Dywedodd Laura North, Ymchwilydd y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe:

> **"Mae ein hadroddiad yn rhoi mewnwelediadau hollbwysig i brofiadau pobl ifanc yn y system ofal yng Nghymru ac yn tynnu sylw at yr angen hanfodol ar gyfer ymyriadau wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag anghenion penodol pobl ifanc mewn gofal. Drwy ddeall y llwybrau a'r heriau a wynebir gan y bobl ifanc fregus hyn, gallwn lywio polisïau ac arferion yn well er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau a sicrhau canlyniadau gwell."**

# IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

## 2024 - 2025

Mae SAIL wedi cael cydberthynas hir ag Iechyd Cyhoeddus Cymru gan gynnwys fel partner yn yr ymateb i bandemig COVID-19. Yn 2023, trafodwyd dull newydd o weithredu a oedd yn canolbwyntio ar greu hwb dichonoldeb o fewn SAIL lle byddai cydweithwyr enwebedig Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu cyrchu SAIL i archwilio dichonolrwydd prosiectau ymchwil cyn gwneud cais am gyllid ar eu cyfer. Nod Hwb Dichonolrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael mwy o lwyddiant wrth sicrhau cyllid ar gyfer ymchwil.

**O 2025, mae'r strwythur newydd hwn yn cael ei dreialu gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd y canlyniadau yn llywio achos busnes posibl dros ei gyflwyno i gyrff eraill y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.**



# Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BECYNNAU A RHAGLENNI GWAITH





# FFRWD WAITH 1


## RHEDEG GWASANAETH CRAIDD SAIL, GAN DDARPARU GWASANAETH CYMORTH CYNHWYSFAWR I BROSIECTAU YMCHWIL I ALLUOGI MYNEDIAD AT DDATA SAIL

Dros y cyfnod o bum mlynedd, mae tîm SAIL wedi parhau i gynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth i bortffolio eang o brosiectau ymchwil. Ymhlith y gweithgareddau allweddol mae'r canlynol:

### PENNU CWMPAS PROSIECTAU

Mae tîm SAIL yn gweithio gydag ymchwilwyr i bennu cwmpas eu prosiectau, gyda'r nod o lunio dogfen wedi'i theilwra sy'n nodi eu gofynion a'r gost gysylltiedig yn glir. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth diwygio ar gyfer prosiectau sy'n weithredol. Rydym yn derbyn ymholiadau gan ystod o ffynonellau, gan gynnwys sefydliadau academaidd, y GIG a sefydliadau'r llywodraeth, ac elusennau.

**Dadansoddiad Blynyddol o Bennu Cwmpas Prosiectau Newydd yn ôl Arweinydd (2020-2025)**




Mae'r duedd pum mlynedd o ran pennu cwmpas prosiectau newydd o 2020 i 2025 yn amlygu newid clir mewn tueddiadau pennu cwmpas, wedi'i lywio'n rhannol gan effaith COVID-19. Mae'r data yn dangos cynnydd sydyn o ran y gwaith o bennu cwmpas prosiectau yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, ac yna cyfnod o addasu a sefydlogi.


- Gwelwyd y gweithgarwch mwyaf yn 2020-21, gyda 244 o brosiectau'n cael eu harwain gan Ddadansoddwyr Arweiniol a 36 yn cael eu harwain gan Eraill. Mae'r ymchwydd hwn yn adlewyrchu'r mentrau brys a ysgogwyd gan COVID a newidiadau cyflym mewn blaenoriaethau strategol
- Yn ystod y flwyddyn ganlynol, 2021-22, gwelwyd gostyngiad (140 gan Ddadansoddwyr Arweiniol a 45 gan Eraill) wrth i'r rhuthr cychwynnol sefydlogi
- O 2022-23 ymlaen, gwelwyd y gwaith o bennu cwmpas prosiectau yn sefydlogi, gyda Dadansoddwyr Arweiniol yn parhau i dyfu'n raddol (163 erbyn 2024-25) tra bod gostyngiad yn y rhai a arweiniwyd gan Eraill, gan awgrymu eu bod yn dychwelyd i arferion pennu cwmpas mwy strwythuredig a chanolog

Ar y cyfan, mae'r data'n adlewyrchu ymchwydd a ysgogwyd gan COVID yn ystod gweithgarwch cynnar, ac yna symudiad tuag at atgyfnerthu a mwy o ddibyniaeth ar arbenigedd Dadansoddwyr Arweiniol yn y cam adfer.

## ADOLYGU LLYWODRAETHU

Pan mae ymchwilwyr eisiau defnyddio data SAIL, mae'n ofynnol iddynt gyflwyno cais i gael cymeradwyaeth Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP). Nod SAIL yw adolygu a rhoi penderfyniad a/neu adborth o fewn pythefnos i dderbyn cais. I gydnabod pwysigrwydd cywirdeb a'r manylion sy'n cael eu cynnwys yng nghais IGRP prosiect, rydym yn cwblhau adolygiad deuol o bob cais newydd. Mae sicrhau bod pob cais o ansawdd uchel a bod y data gofynnol wedi'i ddiffinio'n glir yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu data, adolygu allbynnau ffeiliau a lleihau'r oedi sy'n digwydd fel arall lle mae angen cymeradwyaethau diwygio dilynol. Unwaith mae ein hadolygiad mewnol wedi'i gwblhau, caiff y cais ei drosglwyddo i'r IGRP allanol. Fel arfer, mae'r broses gymeradwyo lawn yn cymryd tua 3 mis.

### Dadansoddiad Blynyddol o Geisiadau a Diwygiadau IGPR (2020-2025)




IGwnaeth gweithgarwch adolygu IGRP amrywio hefyd dros y cyfnod o bum mlynedd yn unol â blaenoriaethau a galw newidiol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

- Yn 202-21 gwelwyd y nifer uchaf (cyfanswm o 159), a ysgogwyd gan nifer fawr o adolygiadau newydd (95) ynghyd â 64 o ddiwygiadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y ceisiadau cwmpasu a ddaeth o ganlyniad i anghenion yn ymddangos yn ystod y pandemig

- Yn 2021-22, gostyngodd cyfanswm yr adolygiadau i 127, gyda gostyngiad nodedig mewn adolygiadau newydd (58) ond cynnydd bach mewn diwygiadau (69), gan awgrym bod ffocws ar ddiweddaru gwaith oedd yn bodoli eisoes

- Parhaodd gweithgarwch i ostwng yn 2022-23 a 2023-24 (cyfanswm o 103 a 102 yn y drefn honno), gyda llai o adolygiadau newydd a phatrwm amrywiol o ran diwygiadau

- Yn 2024-25, gwelwyd rhywfaint o gynnydd i 115 o adolygiadau, wedi'i arwain gan gynnydd mewn adolygiadau newydd (59), gan nodi galw newydd neu newidiadau strategol

Mae'r duedd yn dangos ymchwydd cychwynnol mewn gweithgarwch newydd a oedd yn gysylltiedig â COVID, ac yna gostyngiad ac adferiad graddol, gyda phwyslais cynyddol ar ddiweddaru gwaith oedd yn bodoli eisoes drwy ddiwygiadau.


## DARPARU

Unwaith y caiff prosiect ei gymeradwyo, rydym yn darparu gwasanaeth mewnol i lunio'r ffordd y bydd data'r prosiect yn edrych cyn iddo fod ar gael i'r ymchwilwyr. Mae'r broses hon yn sicrhau mai dim ond y data sydd ei angen ac a gymeradwywyd yn eu cais IGPR y bydd yr ymchwilwyr yn ei gael, gan gadw hefyd at ofynion y darparwyr data. Rydym yn cynnal gwiriadau ansawdd safonol o'r holl ffyrdd y gellir gweld data'r prosiect.

Ein nod yw darparu data'r prosiect o fewn 30 diwrnod i gymeradwyo'r cais, lle mae'r data ar gael ac wedi'i gymeradwyo.

Gwelwyd y gweithgarwch mwyaf o ran darparu data yn 2021-22 gyda chyfanswm o 306 o geisiadau, wedi'u hysgogi gan niferoedd uchel o geisiadau newydd (116), ceisiadau diwygio (80) a cheisiadau diweddaru (110).

### Dadansoddiad Blynyddol o Geisiadau i Ddarparu Data (2020-2025)




- Gwelwyd galw cryf yn 2020-21 hefyd (cyfanswm o 225), a ddylanwadwyd fwy na thebyg gan anghenion adrodd yn gysylltiedig â'r pandemig
- Gwelwyd gostyngiad wedyn yn 2022-23 (cyfanswm o 192), yn enwedig mewn ceisiadau newydd (58), er i nifer y ceisiadau diweddaru a diwygio aros yn gymedrol
- Yn 2023-24, gwelwyd cynnydd eto yng nghyfanswm y ceisiadau i 246, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd sylweddol mewn diwygiadau (114), gan awgrymu diweddariadau parhaus i ddata presennol yn hytrach na darpariaeth newydd
- Gwelwyd gostyngiad yn 2024-25 gyda chyfanswm o 132 o geisiadau. Gwelwyd gostyngiadau ar draws pob math o gais, yn enwedig ceisiadau newydd (27) a cheisiadau diweddaru (49), gan ddangos o bosibl bod llai o alw neu asedau data mwy sefydledig yr oedd angen llai o waith i'w diweddaru neu eu darparu eto

Mae'r duedd yn adlewyrchu galw uchel cychwynnol ac yna symudiad tuag at gynnal a diweddaru data presennol yn hytrach na chynhyrchu ceisiadau newydd.

## ARCHWILIO PROSIECTAU

Mae'r gwaith o archwilio prosiectau yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu SAIL ac ag achrediad allanol fel Deddf yr Economi Ddigidol. Ar ddechrau pob blwyddyn galendr, mae SAIL yn dewis 20 o brosiectau ymchwil i'w harchwilio. Mae'r gwaith o gwblhau gweithredoedd a nodwyd yn rhedeg ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

Caiff y prosiectau eu hasesu ar sail meini prawf llym sy'n cwmpasu cylch oes y prosiect, ac mae angen mewnbwn gan bob rhan o dîm SAIL er mwyn cwblhau pob archwiliad.

- Caiff canfyddiadau eu hadrodd i Grŵp Gweithrediadau SAIL a chaiff y broses o roi camau gweithredu ar waith ei monitro gan y pwyllgor archwilio mewnol
- Mae'r broses o archwilio prosiectau ar gyfer 2025 yn mynd rhagddi nawr

## ADOLYGIADAU O'R FFEILIAU A DYNNWYD ALLAN

Mae ymchwilwyr yn cyrchu data SAIL o fewn amgylchedd ymchwil dibynadwy Porth SAIL diogel. Unwaith y maent wedi paratoi allbynnau i'w rhyddhau, mae'r allbynnau hyn yn destun adolygiad deuol gan y tîm Gwasanaethau Cymorth Data a Defnyddiwr SAIL er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Pholisi Allbynnau SAIL a chytundeb y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y prosiect. Mae arweiniad ar sut i baratoi ffeiliau i'w weld ar dudalen Wiki SAIL "SAIL Output User Guide" yn y Porth.


Rydym yn gofyn i bob defnyddiwr SAIL sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:

- Gwneud cais am y ffeiliau sydd wir eu hangen arnynt o'r Porth a'r ffeiliau hynny'n unig
- Cynnal adolygiadau o allbynnau'r prosiect yn y Porth lle y bo'n bosibl
- Talu sylw agos i ofynion y ddogfennaeth a sicrhau bod y cais yn cael ei ddogfennu'n llawn gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i gynnal adolygiad
- Talu sylw agos i ofynion y ddogfennaeth a sicrhau bod y cais yn cael ei ddogfennu'n llawn gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i gynnal adolygiad

Dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2020 a 2025, mae nifer y ffeiliau y gwneir cais amdanynt o SAIL wedi parhau i dyfu.

- 2021-22: Rhwng mis Ionawr 2021 a mis Rhagfyr 2021, derbyniodd y tîm dros 2600 o geisiadau i gymryd ffeiliau allan (cynnydd o tua 42% o gymharu â 2020) ac adolygodd dros 7800 o ffeiliau (cynnydd o tua 12% o gymharu â 2020), gan ragori bob mis ar ein targed o adolygu 90% o geisiadau o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn
- Yn 2022-23, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2022 a mis Rhagfyr 2022, derbyniodd y tîm dros 2800 o geisiadau (cynnydd o tua 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) ac adolygwyd dros 9500 o ffeiliau (cynnydd o tua 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) gyda thua 93% o adolygiadau yn cael eu cwblhau neu neges yn cael ei hanfon at yr ymchwilydd o fewn 2 ddiwrnod gwaith i gyflwyno'r cais. Mae hyn yn cyfateb i tua 190 o ffeiliau yn cael eu hadolygu bob wythnos. Yn 2022 hefyd, cyflwynodd tîm dadansoddwyr SAIL archwiliadau o'r adolygiadau a gynhaliwyd, lle mae trydydd adolygwr yn archwilio detholiad o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn yr wythnos flaenorol i sicrhau eu bod yn bodloni'r polisi datgelu gofynnol
- 2023-24: Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2023, er i lai o geisiadau ddod i law (-4%), gwelwyd cynnydd yn nifer gwirioneddol y ffeiliau yr oedd angen eu hadolygu (+12%) o gymharu â 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua 206 o ffeiliau yn cael eu hadolygu bob wythnos ar gyfartaledd
- 2024-25: Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y ceisiadau a'r ffeiliau sy'n cael eu hadolygu wedi cynyddu mewn cymhlethdod ac wedi aros yn uchel iawn (newid o -2% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf). Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, cafodd 9063 o ffeiliau eu cyflwyno fel rhan o 2267 o geisiadau ar gyfer allbynnau, sy'n cyfateb i 174 o ffeiliau a 44 o geisiadau bob wythnos ar gyfartaledd. Caiff mwy na dau weithiwr amser llawn eu dyrannu i gynnal Adolygiadau o Allbynnau SAIL bob wythnos

Mae proses Adolygu Allbynnau SAIL wedi dod yn fwy effeithlon a chadarn o flwyddyn i flwyddyn, gan fynd i'r afael â niferoedd mwy a mwy cymhleth a chyflawni targedau perfformiad yn gyson hefyd.



# FFRWD WAITH 2

## CAFFAEL DATA I FODLONI'R GOFYNION A FYNEGWYD GAN EIN SYLFAEN DEFNYDDWYR

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae SAIL wedi ehangu'r data a gedwir ganddo'n sylweddol i gefnogi ymchwil ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyfiawnder ac astudiaethau poblogaeth. Wedi'i ysgogi i ddechrau gan yr angen i weithredu ar frys yn ystod pandemig COVID-19, mae'r rhaglen caffael data wedi aeddfedu i mewn i fenter aml-sector, strategol sy'n ategu amrywiaeth eang o flaenoriaethau polisi ac ymchwil.

### Ymateb Covid-19 (2020-22)

- Caffaelwyd 27 o setiau data cysylltiedig â COVID yn gyflym gan gynnwys data profi, brechu, olrhain cysylltiadau a gwarchod unigolion
- Galluogwyd ymchwil amser real mewn rhaglenni cenedlaethol (e.e. ICODA, astudiaethau Craidd Cenedlaethol)
- Cyflwynwyd modelau mynediad wedi'i ffedereiddio i ddadansoddi data trawsffiniol yn ddiogel

### Ehangu y tu hwnt i iechyd

- Cyfiawnder: Setiau data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (P-NOMIS(System Wybodaeth Rheoli Troseddwyr Genedlaethol Carchardai), Data First, Family Man)
- Addysg: PLASC (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch), Data Addysg Presenoldeb Byw, Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gofal Cymdeithasol: Gweithwyr Gofal Cartref, Ailalluogi Gofal, Gweithlu Ysgol
- Arolygon a'r Cyfrifiad: Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr), Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Data Carfanau a Genomeg (2024-25)

- Data carfanau newydd,arolwg Eich Bywyd y Tu Hwnt i Ofal
- Peilot o ffeiliau VCF genomig gyda Gwasanaeth Genomeg Cymru Gyfan

### Gwelliannau Gweithredol

- Yn ystod yr ymateb i COVID – Diweddarwyd data meddygon teulu yn fisol, y data ar gael bron mewn amser real, a thros 80% o setiau data wedi'u rhyddhau o fewn 7 diwrnod i'w caffael (2021)
- Datryswyd ansawdd/cyflawnder data mewn setiau data allweddol (e.e. WCISU (Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru), Sgrinio, CARIS (Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid)

Erbyn hyn, mae SAIL yn cynnal portffolio amrywiol ac ymestynnol o setiau data sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac sy'n rhychwantu amryw sectorau. Bydd datblygiadau parhaus ym maes caffael data, sicrhau ansawdd, a llywodraethu yn parhau i sicrhau bod SAIL yn darparu adnoddau data amserol, effaith uchel y gellir dibynnu arnynt i'r gymuned ymchwil.

# FFRWD WAITH 3

## CYNYDDU CYFLYMDER AC EFFEITHLONRWYDD YMCHWIL DRWY DDATBLYGU SET O OFFER Y GELLIR EI AILDDEFNYDDIO (LLYFRGELL CYSYNIADAU) A FYDD YN GALLUOGI AC YN LLEIHAU'N SYLWEDDOL YR AMSER A'R YMDRECH SYDD EU HANGEN I GYNNAL DADANSODDIAD CYFLAWN O GWESTIWN YMCHWIL O FEWN BANC DATA SAIL

Dros y pum mlynedd diwethaf, arweiniodd Banc Data SAIL fenter fawr i gyflymu ymchwil drwy ddatblygu seilwaith ac offer y gellir eu hailddefnyddio sy'n symleiddio ac yn safoni dadansoddi ar draws astudiaethau.

### Llyfrgell Cysyniadau a Llyfrgelloedd Ffenoteipiau

- Lansiodd SAIL y Llyfrgell Cysyniadau (2020), gan sicrhau bod modd rhannu diffiniadau ymchwil yn gyson. Daeth yn sylfaen ar gyfer Llyfrgell Ffenoteipiau HDR UK ledled y DU (2021-22) sydd, erbyn hyn, yn cynnwys dros 1,000 o ffenoteipiau. Arweiniodd SAIL waith ailddylunio rhyngwyneb, integreiddio model diogelwch, a datblygu pecyn R, gydag integreiddio llawn i Blatfformau Atlas a Gateway HDR UK erbyn 2024

### Setiau Data sy'n Barod ar gyfer Ymchwil

- Rhyddhawyd setiau data wedi'u glanhau a'u hoptimeiddio (e.e. PEDW, WLGP, WRRS, WDSD), gan wella defnyddioldeb a pherfformiad. Gwnaeth dros 100 o brosiectau elw ar y data gwell

### Offer Dadansoddi ac Awtomeiddio


- Aethpwyd ati i ddatblygu offer datblygu carfanau, creu grwpiau rheoli cymharus (gan gynnwys fersiwn R o'n cod), golygu data, awtomeiddio sicrhau ansawdd, a chydymffurfio â threfniadau llywodraethu, gan leihau ymdrech ac amser i ymchwilwyr

### Galluogi Ymchwilwyr

- Sefydlwyd rhaglen hyfforddi gyda Phrifysgol Abertawe i roi mynediad â goruchwyliaeth i fyfyrwyr at ddata byd real, gan adeiladu capasiti ymchwil ar gyfer y dyfodol

### Cwblhau

- Cyflwynwyd yr Adeiladwr Carfanau yn 2025. Gyda'r cyllid datblygu yn dod i ben, mae'r ffrwd waith wedi dod i ben nawr
- Aeth y rhaglen hon ati i symleiddio llifau gwaith ymchwil, gwella ansawdd data a'r mynediad ato, a sicrhau bod SAIL yn arweinydd ym maes offer ailddefnyddiadwy ar gyfer gwyddor data poblogaeth



# CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Agwedd hanfodol ar ddatganiad cenhadaeth SAIL yw defnyddio data er budd cleifion a'r cyhoedd. Rydym yn ymwybodol iawn bod y data a gedwir gennym yn SAIL yn deillio o bobl go iawn, y gallai fod yn sensitif, a'n bod yn ei gadw gydag ymddiriedaeth. Felly, mae cynnwys aelodau o'r cyhoedd a chleifion yn ein gwaith yn hollbwysig. Mae gwneud hynny yn sicrhau ein bod yn dehongli'n gywir a yw defnydd arfaethedig o ddata yn cael ei ystyried yn fuddiol i'r cyhoedd, a bod y ffordd rydym yn cadw ac yn defnyddio data yn weladwy i'r gymuned ehangach.

Mae holl aelodau'r panel yn aelodau o'r cyhoedd o wahanol broffesiynau, cefndiroedd, cefndiroedd demograffig a daearyddiaeth. Gwahoddir aelodau o Banel Defnyddwyr i gynorthwyo gyda llawer o feysydd o broses Banc Data SAIL. Maent yn rhoi cymorth a chyngor i ymchwilwyr wrth ddatblygu eu syniadau ar gyfer prosiectau, llunio ceisiadau am gyllid drwy sicrhau bod yr holl ymchwil yn cynnwys cynllun clir ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd ac yn cynghori ymchwilwyr ar arferion da wrth rannu canfyddiadau eu hymchwil.

## CYNNWYS Y CYHOEDD

### GRŴP CYNGHORI CLEIFION A'R CYHOEDD SAIL, Y PANEL DEFNYDDWYR

### 2020 - 2021

Newidiodd cyfarfodydd y Panel Defnyddwyr o fod yn rhai wyneb yn wyneb i rai ar-lein yn ystod y pandemig, gan sicrhau bod ymchwilwyr yn cael y cyfle o hyd i ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd a'u cynnwys yn eu gwaith ymchwil oedd yn defnyddio data SAIL.

### 2021 - 2022

Er gwaethaf y cyfyngiadau oedd ar waith yn ystod 2021-22 oherwydd COVID-19, roedd SAIL yn gallu parhau i gynnal cyfarfodydd chwarterol y Panel Defnyddwyr a gynhaliwyd ar-lein ac yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, aeth SAIL ati i recriwtio aelodau newydd i ymuno â'r panel a bydd yn parhau i recriwtio yn 2022 oherwydd y galw cynyddol i gynnwys y cyhoedd a chleifion mewn ymchwil.

### 2022 - 2023

Ychwanegwyd cyfarfod arall i'r cyfarfodydd chwarterol ym mis Tachwedd 2022 oherwydd y galw gan ymchwilwyr, a chafodd rhai aelodau o'r Panel Defnyddwyr eu recriwtio fel aelodau o'r Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth.

Rhoddodd aelodau o'r Panel Defnyddwyr gefnogaeth i sawl menter allweddol; ymhlith y gwaith ymchwil a gefnogwyd roedd BOLD, NDL, Emily Lowthian.

## 2023 - 2024

Cafodd y Panel Defnyddwyr, a oedd yn cynnwys 20 o bobl erbyn hyn yn sgil menter recriwtio lwyddiannus ar ddiwedd 2023, ei agor i aelodau ychwanegol er mwyn cynnal y galw uchel am gyfarfodydd. Estynnwyd cyfarfodydd y Panel Defnyddwyr i chwe chyfarfod oherwydd y galw gan ymchwilwyr ac maent yn parhau i gael eu cynnal ar-lein sy'n gwella cynwysoldeb ac yn sicrhau bod modd i ymchwilwyr o bob rhan o'r DU gymryd rhan. Yn ogystal â'r gefnogaeth ad hoc i ymchwilwyr a ddisgrifir uchod, rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, rhoddodd y Panel Defnyddwyr gefnogaeth i fentrau a oedd yn cynnwys:

Labordy Data Rhwydweithio Cymru: Nodi gofalwyr di-dâl drwy ddata awdurdodau lleol a gofal sylfaenol mewn ardaloedd lleol ledled Cymru; deall anghydraddoldebau mewn iechyd: https://icc.gig.cymru/newyddion1/mewnwelediadau-newydd-yn-dangos-potensial-data-ar-draws-systemau-iechyd-a-gofal-i-lywio-cymorth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-yng-nghymru/

Dementias Platform UK (DPUK): Datblygu Mynegai Risg Preifatrwydd Deallusrwydd Artiffisial i Lywio Penderfyniadau ynghylch Tynnu Ffeiliau Allan: https://zenodo.org/records/11045640

## 2024 - 2025

Mae'r Panel Defnyddwyr yn parhau i weithredu ar-lein, gan alluogi ymchwilwyr i ymgysylltu â nhw a'u gwahodd i fod yn rhan o'u ceisiadau cyllido neu grwpiau cynghori PPIE (cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd) sy'n benodol i brosiectau oherwydd eu profiad a'u gwybodaeth. Mae'r Panel Defnyddwyr yn ymwneud â SAFER – SAILAdvancing Federated Exploration and Readiness, prosiect arloesi Mabwysiadwyr Cynnar y DU DARE (Amgylcheddau Ymchwil Data a Dadansoddeg) sy'n integreiddio, profi a mireinio cynhyrchion technegol allweddol a ddyluniwyd i wella galluoedd ymchwil amgylcheddau TRE er budd y cyhoedd: https://dareuk.org.uk/how-we-work/ongoing-activities/dare-uk-early-adopters/safer/



# YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD A GWEITHGARWCH LLEDAENU CYFFREDINOL

## 2020 - 2021

- Yn sgil cyfyngiadau COVID, cyfyngwyd ar faint o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd y gallai tîm SAIL ei wneud yn ystod 2020-21. Gwnaethom fanteisio ar unrhyw gyfleoedd, gan weithio'n rhithwir yn unol â'r canllawiau
- Gweminar Use My Data (Tach 2020) – rhoddodd Kerina Jones gyflwyniad yn y digwyddiad, a fynychwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn rhithwir. Siaradodd am sut mae amgylcheddau TRE yn gweithio, pam y gallent fod mor bwysig a sut mae llais y claf yn cael ei glywed wrth eu dylunio, eu datblygu a'u cynnal. O ganlyniad i adborth a gafwyd gan y gynulleidfa yn y digwyddiad hwn, mae SAIL yn cyhoeddi rhestr lawn o brosiectau ac allbynnau presennol nawr, ynghyd ag ystadegau am y defnydd o setiau data, y meysydd ymchwil yr ymgymerir â nhw a'r mathau o ddefnyddwyr ar ei wefan

## 2021 - 2022

- Diweddarwyd gwefan SAIL (Ebrill 2021) – gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer oedd yn defnyddio SAIL, setiau data a'r dylanwad ar bolisi cyhoeddus yn ystod y pandemig, a nodwyd bod angen gwella gwefan SAIL er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyfathrebu ei weithgareddau'n gywir ac yn effeithiol i ymchwilwyr, llunwyr polisi a'r cyhoedd. Rhoddodd y Panel Defnyddwyr adborth ar dryloywder, awgrymodd y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol ar ba mor aml yr oedd y wybodaeth yn cael ei diweddaru a rhoddodd rai esiamplau o waith dylunio gwefannau da y gallai SAIL eu defnyddio fel ysbrydoliaeth. Cafodd yr adborth hwn ei ddadansoddi a'i weithredu ar wefan newydd SAIL
- Adolygiad Drafft Llywodraethu Gwybodaeth (Medi 2021) – cyflwynodd cyd-gyfarwyddwr SAIL, yr Athro Kerina Jones, gyfres o egwyddorion arfer da ym maes Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cael eu datblygu i'w defnyddio gan brosiectau SAIL a'r timau ehangach yng ngrŵp Gwyddor Data Poblogaeth Prifysgol Abertawe. Aeth y Panel ati i adolygu'r egwyddorion gwybodaeth drafft a rhoddodd adborth i'w ystyried a'i ddatblygu ymhellach
- Labordy Data Rhwydweithio Cymru – Y Labordy Data Rhwydweithio, a grëwyd gan yr elusen annibynnol, The Health Foundation, yw'r rhwydwaith cyntaf o'i fath. Mae'n dod â thimau dadansoddol o bob

rhan o'r wlad ynghyd i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd pobl yn y DU. Mae'n gydweithrediad rhwng Banc Data SAIL, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar nifer yr achlysuron rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cyfarfu tîm y prosiect â Phanel Defnyddwyr SAIL i gael cyngor a phersbectif ar gwmpas a chyfeiriad y prosiect a dyluniad a chynnwys allbynnau allweddol fel dogfennau ar waith y prosiect i'w cyhoeddi i'r cyhoedd

## 2022 - 2023

- Parhaodd Labordy Data Rhwydweithio Cymru i ddefnyddio'r Panel i gyflwyno ei ymchwil, a chafodd y canlynol ei gyhoeddi ar ôl cyflwyno i'r Panel cyn ac ar ôl yr astudiaeth: https://icc.gig.cymru/newyddion1/mae-data-newydd-yn-tynnu-sylw-at-wahaniaethau-pwysig-o-ran-cyflwyno-ar-gyfer-argyfwng-iechyd-meddwl-ymhlith-plant-a-phobl-ifanc-ledled-Cymru/

Yna cafodd yr ymchwil hon ei chyflwyno ar-lein yng Ngweithdy 1 Cyfres Ymgysylltu PPIE y Labordy Data Rhwydweithio lle gwnaethom rannu ymchwil a chanlyniadau o'r pedwar labordy gan gynnwys canfyddiadau o'r uchod a ledaenwyd gan y Panel Defnyddwyr a grŵp cleifion a'r cyhoedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

## 2023 - 2024

- Ymwelodd y tîm ymgysylltu â'r cyhoedd ag ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2023 i siarad â phob grŵp blwyddyn am y ffordd y mae data iechyd wedi datblygu a newid drwy hanes, a beth i'w ystyried wrth ddatblygu eli haul ar gyfer y blaned newydd roeddent yn ymchwilio iddi
- Adroddiad ar gyfer hwb dysgu ADR UK: https://www.adruk.org/learning-hub/skills-and-resources-to-use-administrative-data/public-engagement-in-practice/running-a-public-panel-meeting/
- Cefnogwyd cymrodyr ADR gyda'u hymchwil ar achosion o gamdriniaeth domestig mewn llysoedd teulu a phrofiadau mamau ifanc o'r system cyfiawnder teuluol. Derbyniodd y cymrodyr adborth gan y Panel Defnyddwyr ar sut i rannu eu canfyddiadau
- Cefnogwyd aelodau o'r Panel Defnyddwyr fel rhan o'r Panel Beirniaid ar gyfer y Digwyddiad Arddangos Interniaethau yn y digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb yn yr Adeilad Gwyddor Data a chymerwyd rhan yn y gweithgarwch
- Mynychwyd Cynhadledd ADR UK ac ymgymerwyd â gweithgarwch ymgysylltu PPIE 4 gwlad yn y gynhadledd gan gyflwyno gweithdy cyn y gynhadledd, sef 'Gweithdy 1 – Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil data: o ble i ddechrau i'r broses werthuso'
- Cychwynnwyd ar brosiect ymchwil MAGENTA (Maternal And preGnancy hEalth aNd elevaTed heAt), gan ddatblygu cynllun PPIE a recriwtio ar gyfer 30 o grwpiau ymgysylltu â'r cyhoedd: https://magentaresearch.org/patient-and-public-involvement/

## 2024 - 2025

- Ymwelwyd ag ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr eto i siarad â Michaela James a'r holl blant am iechyd meddwl a pha weithgareddau y maent yn hoffi eu gwneud sy'n gwella eu llesiant meddyliol
- Mynychwyd a chefnogwyd Digwyddiad Arddangos Interniaethau yr haf gyda 2 aelod o'r Panel Defnyddwyr fel rhan o'r panel beirniaid yn hyrwyddo safbwyntiau cleifion a'r cyhoedd yn yr amgylchedd ymchwil
- Trefnwyd Digwyddiad PPIE Rhaglen Ysgogwyr HDR UK ar-lein i'r ymchwilwyr gyflwyno eu rhaglenni a'u prosiectau a derbyn adborth gan aelodau o'r Panel Defnyddwyr a oedd yn bresennol. Health Data Research UK Driver Programme PPIE Event.pdf
- Gweminar Arddangos SAIL "PPIE – Data Cyhoeddus er Budd y Cyhoedd" – Cynorthwywyd i drefnu a chyflwyno gweminar mis Tachwedd a oedd yn seiliedig ar PPIE mewn ymchwil cyswllt data, gan roi trosolwg o PPIE yn SAIL a'n Panel Defnyddwyr
- Grŵp PPIE MAGENTA – Cynhaliwyd y cyntaf o'r cyfarfodydd ar-lein misol gyda 15 o aelodau o'r grŵp PPIE i roi adborth ar daflenni a oedd yn rhoi gwybodaeth am gymryd rhan mewn astudiaeth, marchnata, a'r dudalen we
- Podlediad ADR UK – Cysylltu Cymdeithas: Sut y gall data bob dydd lywio ein bywydau. Sut mae data yn llywio Cymru iachach – gyda Dot Williams, aelod o Banel Defnyddwyr SAIL: https://www.buzzsprout.com/20585
- Rhan o dîm SAFER (SAIL Advancing Federated Exploration and Readiness) a aeth i Nottingham ar gyfer lansiad Cam 2 DARE UK i ddeall prosiectau sy'n mynd rhagddynt, atgyfnerthu cysylltiadau a sefydlu ffyrdd effeithiol o weithio. Diwrnod 1: Prosiect TREvolution, ffocws ar ein cynhyrchion a'n allbynnau Diwrnod 2: Gweithio gyda thîm ehangach DARE UK Diwrnod 3: Cynllunio gyda mabwysiadwyr a grwpiau cymunedol Diwrnod 4: Rhannu'r cynlluniau gyda'r byd
- Mynychwyd Diwrnod Strategaeth PPIE Ysgogwyr a Seilwaith HDR UK gyda Jack Palmer a Gweithwyr PPIE Proffesiynol eraill HDR UK, gan adolygu pecyn cymorth i'w gyflwyno yn y pen draw ar hwb dysgu HDR UK
- Ymgynghoriad IGPR tîm SAFER (SAIL Advancing Federated Exploration and Readiness), y cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd ag aelodau IGPR i gyflwyno'r cysyniad o 'Ddata wedi'i Ffedereiddio'
- Dechreuwyd ar Astudiaeth Beilot o Foeseg ac Uniondeb Data mewn Ymchwil Data Gweinyddol gyda nifer o ymweliadau â'r Panel Defnyddwyr yn cael eu cyhoeddi: https://www.llyw.cymru/moeseg-mewn-data-ymchwil-gweinyddol-dadansoddiad-o-weithdai

# CASGLIAD

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi bod yn bennod bwysig yn esblygiad Banc Data SAIL. Chwaraewyd rôl hollbwysig wrth ymateb i bandemig COVID-19, gan alluogi mewnwelediadau cyflym wedi'u llywio gan ddata a ddefnyddiwyd yn uniongyrchol i gefnogi penderfyniadau ynghylch iechyd y cyhoedd ledled Cymru a'r DU. Tynnodd ein cyfraniadau yn ystod y cyfnod digynsail hwn sylw at werth amgylcheddau yr ymddiriedir ynddynt sy'n rhoi mynediad diogel at ddata.

Y tu hwnt i'r pandemig, rydym wedi parhau i ysgogi arloesedd, gyda datblygiadau pwysig yn ein seilwaith technegol a'n gwasanaethau data. Er bod cyflymder gweithgarwch wedi arafu'n naturiol yn dilyn y cyfnod prysur yn ymateb i COVID-19, mae ein ffocws wedi symud tuag at dwf cynaliadwy a sicrhau bod ymchwil yn cael effaith ddyfnach. Rydym yn falch o'n partneriaeth gref a chynhyrchiol gyda HDR UK, yr ydym wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ac wedi alinio ag ecosystem ymchwil data iechyd ehangach y DU drwyddi.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer 2025-2030 yn canolbwyntio ar wella rôl SAIL fel storfa ddata ac amgylchedd ymchwil yr ymddiriedir ynddo drwy ehangu caffaeliadau data yng Nghymru a ledled y DU, gan gynnwys ffynonellau data aml-ddull a gwerth uchel. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid sy'n galluogi twf parhaus a mynediad at setiau data pwysig. Mae SAIL hefyd yn anelu at ehangu gwasanaethau 'TRE+' drwy dechnoleg ffedereiddio data well a modelau cynnal hyblyg, gan hyrwyddo ymreolaeth ar gyfer grwpiau ymchwil a chymorth ymgynghori. Caiff yr ymdrechion hyn eu hategu gan strategaethau cadarn ym meysydd llywodraethu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod SAIL yn parhau i dyfu, yn gynaliadwy ac yn cydweithredu ar lefel fyd-eang.

Mae ein cydberthynas waith agos barhaus ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn parhau i fod yn ganolog i'n cenhadaeth, ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y sylfeini hyn i sicrhau ein bod yn cael hyd yn oed mwy o effaith yn y dyfodol.



**Secure**
**Annonymised**
**Linkable**

Mae Banc Data SAIL yn fanc data poblogaeth cyfoethog a dibynadwy sy'n cynnwys biliynau o gofnodion wedi'u seilio ar bobl. Mae'n gwella bywydau trwy ddarparu data diogel, cysylltiadwy ac anhysbys i ymchwilwyr y gellir eu cyrchu a'u dadansoddi o unrhyw le yn y byd.

Ariennir gan

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru / Health and Care Research Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government

UKRI Economic and Social Research Council

Cefnogir gan

Swansea University / Prifysgol Abertawe

Ardystiedig ac achrededig

bsi ISO/IEC 27001 Information Security Management IS632731

UK Statistics Authority / Awdurdod Ystadegau'r DU

Mewn partneriaeth â

GIG Cymru / NHS Wales Gwasanaeth Gwybodeg / Informatics Service

Wedi ei bweru gan

SeRP

www.SAILDatabank.com